

<b>CYFARFOD</b>	<b>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>22 MAWRTH, 2016</b>
<b>PWNC</b>	<b>CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Ceisio barn y Pwyllgor ar ddewisiadau gyda chydabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Arwel E Jones, Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni</b>

## **CEFNDIR**

1. Bydd aelodau yn cofio y bu ymgynghoriad dros y gaeaf ar gynigion drafft y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol aelodau etholedig ar gyfer y flwyddyn nesaf.
2. Erbyn hyn, cyhoeddwyd y cynigion terfynol. Dyma'r ddolen i'r dudalen lle mae modd canfod adroddiad y Panel Annibynnol.  
<http://gov.wales/irpwsb/home/publication/2016-17/irp-annual-report-2016-17/?skip=1&lang=cy>
3. Fodd bynnag, dyma'r prif bwyntiau o sylwedd:-
  - a. Dim newid yn y cyflogau sylfaenol i drwch yr aelodau
  - b. Dim newid yn y cyflogau i'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd
  - c. Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Aelodau Cabinet ar un o ddwy lefel, Lefel 1, £29,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£26,100)
  - ch. Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel, Lefel 1, £22,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£20,000)

## **Y MATER SYDD GERBRON**

4. Mae dyfarniadau'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhwymo cynghorau i wneud y taliadau a bennir ganddynt. Yr unig ffordd arferol i beidio â gwneud y taliadau hynny yw i aelod unigol ddatgan nad yw am dderbyn y cyfan o'r taliadau.
5. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn wahanol gan bod gan y Cyngor yr hawl i wneud penderfyniadau ar bwyntiau 3c a 3ch uchod. Wrth wneud y penderfyniad, dylai'r Cyngor ystyried nid yn unig ar ba lefel i osod y swyddi gwahanol ond hefyd a oes lle i wahaniaethu rhwng y cyfrifoldebau gwahanol. O ran lefel y cyfrifoldebau sydd yn cael eu hysgwyddo gan Aelodau Cabinet gwahanol, dylid nodi ein bod wedi gwneud ymdrech fwriadol, fel Cyngor, i rannu cyfrifoldebau Cabinet mor gyfartal â phosib. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a oes gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan y cadeiryddion pwyllgorau a nodir isod ac, yn wir, gadeiryddion rhai pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth arbennig, fel y Pwyllgor Pensiynau, y Pwyllgor Iaith ac, yn wir, y Pwyllgor hwn.

6. Oherwydd yr asesiad cyfrifoldebau hynny, ar hyn o bryd, mae pob Aelod Cabinet ar Lefel 1 ac mae'r holl gadeiryddion pwyllgorau isod yn cael lefel uwch o daliad:-

- Pwyllgor Craffu (X3)
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Apelau Cyflogaeth

#### **PENDERFYNIAD**

7. Ceisir barn y pwyllgor er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn, ynglyn â'r hyn y dylid ei dalu ym mlwyddyn olaf y Cyngor hwn, yn ei gyfarfod nesaf.